Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Maesllyn
# Lakefield Road
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA15 2TS

## Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Maesllyn yn Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Mae 289 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae 11 dosbarth yn yr ysgol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn ddosbarthiadau oedran unigol. Ar hyn o bryd, mae disgyblion o Ysgol Fabanod Copperworks yn trosglwyddo i'r ysgol ym Mlwyddyn 3. Bydd yr ysgol yn uno ag Ysgol Fabanod Copperworks ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mae adeilad newydd yn yr arfaeth ar gyfer tua 2018.

Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 46% o ddisgyblion. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer bach iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw tuag 20% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu maent yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg gartref.

Mae tua 37% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd fel pennaeth dros dro yn Ebrill 2015.

Mae'r gyllideb ysgol fesul disgybl unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Maesllyn yn 2015-2016 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,547 fesul disgybl. Mae'r uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yn £8,382 ac mae'r isafswm yn £3,111. Mae Ysgol Gynradd Maesllyn yn safle 65 o'r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu ac wrth ddatblygu eu medrau
- Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando da
- Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o gymharu â'u man cychwyn
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn briodol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu

Fodd bynnag:

- Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, yn enwedig perfformiad disgyblion mwy abl, yn rhy isel o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg
- Mae cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig yn gyfyngedig
- Mae ystod y cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel briodol ar draws feysydd eraill y cwricwlwm wedi'i thanddatblygu
- Nid yw addysgu bob amser yn rhoi digon o her i'r disgyblion mwyaf abl
- Nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gyfeirio'u dysgu eu hunain

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae gan y pennaeth dros dro a'r staff ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella
- Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi data ar berfformiad disgyblion yn ofalus i nodi tueddiadau a chynllunio at y dyfodol
- Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn nodi meysydd priodol i'w datblygu
- Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol ac ysgolion partner i gefnogi gwella'r ysgol
- Mae arweinwyr yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael yn effeithiol ac mae hyn wedi arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau ar gyfer disgyblion agored i niwed

Fodd bynnag:

- Megis dechrau datblygu y mae cyfraniad yr uwch dîm arwain at osod cyfeiriad strategol yr ysgol
- Mae rôl y corff llywodraethol o ran herio a dwyn yr ysgol i gyfrif wedi'i

thanddatblygu
- Nid yw prosesau hunanarfarnu yn elwa'n llawn o farn pob rhanddeiliad
- Nid yw mentrau diweddar wedi cael amser eto i effeithio'n gadarnhaol ar safonau

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau i ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, yn enwedig i'r disgyblion mwy abl

A2 Ymestyn ystod y cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel briodol ar draws feysydd eraill y cwricwlwm

A3 Rhannu'r arfer dda mewn addysgu ar draws yr ysgol i sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cael her ddigonol ym mhob gwers

A4 Ymestyn rôl yr uwch dîm rheoli i sicrhau eu bod yn gosod cyfeiriad strategol yr ysgol mewn modd mwy cyfunol

A5 Sicrhau bod y corff llywodraethol yn rhoi mwy o her i arweinwyr yr ysgol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn fwy trylwyr

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae asesiad yr ysgol o ddisgyblion pan fyddant yn dechrau yn y dosbarth derbyn yn dangos bod medrau llythrennedd a rhifedd llawer o ddisgyblion islaw'r medrau a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n trosglwyddo o Ysgol Fabanod Copperworks, yn gwneud cynnydd boddhaol ac mewn ambell achos, cynnydd da o gymharu â'u man cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau. Siaradant yn hyderus â'i gilydd a chydag ymwelwyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau siarad a gwrando datblygedig gan fwyafrif y disgyblion. Maent yn awyddus i rannu eu meddyliau a'u barn a mynegant eu hunain yn glir wrth drafod eu gwaith. Mae disgyblion hŷn a mwy abl yn cynnig esboniadau aeddfed, rhugl o'u dysgu, er enghraifft wrth esbonio sut i raglennu robot i dynnu llun amrywiaeth o siapiau cymhleth.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn darllen ar lefel briodol i'w hoedran a'u gallu. Defnyddiant strategaethau ffoneg yn dda i roi cynnig ar seiniau geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn frwdfrydig am y llyfrau maent wedi'u darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion iau yn darllen llyfrau o'r cynllun darllen yn gywir, gyda mynegiant. Mae disgyblion hŷn a mwy abl yn defnyddio goslef a mynegiant clir yn eu darllen. Mae hyn yn eu helpu nhw i ddarllen gydag ystyr a dealltwriaeth. Gallant ddefnyddio medrau ymchwil yn briodol i ddod o hyd i wybodaeth.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn brawddegau gan ddefnyddio atalnodi priodol i'w hoedran a gwnânt ddewisiadau sillafu sy'n synhwyrol yn ffonetig. Mae'r mwyafrif yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Defnyddiant eu medrau'n dda ym meysydd eraill y cwricwlwm, er enghraifft wrth osod digwyddiadau o Dân Llundain mewn trefn. Fodd bynnag, mae gorddefnyddio taflenni gwaith a diffyg cyfleoedd i ysgrifennu'n rhydd yn cyfyngu ar allu disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu ar lefel briodol mewn gwersi llythrennedd. Mae mwyafrif y disgyblion iau yn ysgrifennu mewn paragraffau ac mae eu sillafu a'u hatalnodi yn gywir ar y cyfan. Defnyddiant ystod berthnasol o eirfa ac maent yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu mewn amrywiaeth addas o genres. Mae disgyblion hŷn yn trosglwyddo'u medrau llythrennedd yn dda i feysydd eraill y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu cofnod mewn dyddiadur yn esbonio effeithiau'r llwg yn eu gwersi gwyddoniaeth. Gall disgyblion mwy abl gyflwyno dadl resymegol yn dda, er enghraifft wrth ystyried pwyntiau o blaid neu yn erbyn bodolaeth sŵau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn ysgrifennu cystal ag y gallant gan nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n rhydd ac yn annibynnol.

Mae medrau mathemategol disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol.  Mae llawer o ddisgyblion iau yn defnyddio'u medrau rhif yn dda mewn gwersi mathemateg ac ym meysydd eraill y cwricwlwm.  Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion hŷn yn datrys heriau mathemategol yn dda, er enghraifft wrth brynu eitemau o siop ffrwythau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o werth lle ac yn defnyddio medrau cyfrifiannol yn briodol.  Mae disgyblion hŷn a mwy abl yn adio a thynnu rhifau pum digid yn hyderus ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddegolion a siâp.  Mae'r disgyblion mwyaf abl yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn hyderus iawn, er enghraifft wrth ddadansoddi data i greu siart cylch.  Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion bob amser yn defnyddio'u medrau rhifedd ar lefel briodol ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.  Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn ymateb i gyfarwyddiadau syml yn dda.  Darllenant yn gymwys i'w hoedran a'u gallu.  Yn eu gwaith ysgrifenedig, mae llawer o ddisgyblion yn cwblhau brawddegau syml yn gywir o gronfa o eiriau addas.  Er enghraifft, dewisant ansoddeiriau priodol i ddisgrifio Siôn Corn.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad gyda hyder cynyddol ar amrywiaeth o bynciau cyfarwydd.  Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen testunau Cymraeg syml yn glir, gyda dealltwriaeth.  Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu mewn paragraffau gan ddefnyddio ystod dda o eirfa, er enghraifft wrth ddisgrifio'u hunain.  Defnyddiant eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft pan fyddant yn cyfrifo cost eitemau mewn siop gwerthu byrgyrs ac ysgrifennu sgwrs i archebu eu pryd bwyd.

Mae mwyafrif y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.  Mae llawer o'r disgyblion hyn yn cymryd camau gwerthfawr ymlaen o ran bodloni eu targedau personol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch dros y pedair blynedd diwethaf wedi tueddu i roi'r ysgol yn yr 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio yn gyffredinol rhwng yr 50% uwch a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch yn amrywio'n helaeth ac nid oes tuedd gyffredinol.

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da.  Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn tueddu i gyflawni cystal â disgyblion eraill.

## Lles: Digonol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn gallu troi at aelodau staff i'w helpu os oes ganddynt broblem. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Cânt eu symbylu gan y system newydd o wobrau ac maent yn awyddus i gyflawni'n dda ym mhob agwedd ar ymddygiad a dysgu. Yn ystod gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio gan gynnal eu canolbwyntio, a dangosant barch, gofal a phryder tuag at ddisgyblion eraill, staff ac ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn briodol, er bod ymddygiad ychydig ddisgyblion yn effeithio'n negyddol ar ddysgu a lles eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd ffordd iach o fyw. O ganlyniad, mae ganddynt agweddau cadarnhaol at fwyta ac yfed yn iach ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n heini ac yn iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan weithgar mewn ystod addas o gyfleoedd chwaraeon, cerddoriaeth a chyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael amser cinio ac ar ôl ysgol.

Mae cyngor yr ysgol, y pwyllgor eco a'r llysgenhadon chwaraeon yn chwarae rhan weithgar yn hyrwyddo digwyddiadau elusennol a digwyddiadau'r ysgol. Mae disgyblion sy'n cymryd rhan yn y pwyllgorau hyn yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent wedi helpu i ddatblygu 'System Gyfeillion' i gefnogi disgyblion amser egwyl ac amser cinio. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cyfranogi gymaint ag y gallent mewn penderfyniadau ac arweinyddiaeth yn yr ysgol.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf fel ei fod yn unol yn gyffredinol â chyfartaledd ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu ar ddysgu blaenorol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi newid ei dull o gynllunio'r cwricwlwm ac mae'r profiadau dysgu a ddarperir yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn ddiddorol ac yn hoelio sylw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn wedi cael digon o amser i gael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan lawer o ddisgyblion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae athrawon yn defnyddio'r awyr agored yn briodol i ymestyn dysgu disgyblion a datblygu amrywiaeth addas o fedrau. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio themâu sy'n rhoi ystyriaeth addas i'r gofyniad am ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel ddigon heriol nac i gyfeirio'u dysgu eu hunain.

Mae’r cymorth a’r ymyrraeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion y mae’r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn dda, ac mae’n bodloni anghenion bron pob un o’r dysgwyr yn y grwpiau hyn yn effeithiol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad Cymraeg disgyblion yn dda. Mae bron pob un o’r staff yn siarad Cymraeg â disgyblion a’i gilydd yn rheolaidd mewn rhyngweithiadau bob dydd o gwmpas yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae cwricwlwm yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru yn dda trwy waith prosiect, ymweliadau a chymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o amrywiaeth addas o weithgareddau allgyrsiol, fel y clwb gitâr, rygbi a’r côr. Mae’r rhain yn ategu’r cwricwlwm a addysgir yn briodol.

Mae’r ysgol yn hybu datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol. Mae’n codi ymwybyddiaeth disgyblion o fywydau pobl eraill mewn gwledydd gwahanol, fel Burkina Faso a Nigeria, trwy gefnogi amrywiaeth o elusennau. Mae’r pwyllgor eco yn hyrwyddo ailgylchu ac arbed ynni yn frwdfrydig.

**Addysgu: Digonol**

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio’u gwersi yn drylwyr. Mae bron pob un ohonynt yn defnyddio ystod dda o adnoddau i ddarparu profiadau dysgu sy’n symbylu ac yn hoelio sylw’u disgyblion. Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod eu disgyblion yn dda. Rhoddant gymorth sensitif i alluogi grwpiau penodol o ddysgwyr, yn enwedig y rhai lleiaf abl a’r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, i fanteisio ar ddysgu yn haws. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau priodol ynghylch yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw’r her i ddisgyblion mwy abl yn ddigon trylwyr bob amser. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd digonol yn eu dysgu. Mewn ychydig wersi, mae cyflymder dysgu yn rhy araf ac mae’r cyfleoedd i ddisgyblion weithio’n annibynnol yn gyfyngedig.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn gydwybodol ond nid yw’r sylwadau’n glir bob amser ynghylch y pethau mae disgyblion wedi’u gwneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn annog disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn unol â meini prawf llwyddiant diffiniedig. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion osod eu targedau eu hunain ar gyfer dysgu nac arfarnu eu cynnydd eu hunain. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn gynhwysfawr trwy brofi trylwyr a defnyddio system olrhain ar-lein. Defnyddiant y wybodaeth hon yn briodol i gynllunio profiadau dysgu sy’n arwain at welliannau yng ngwaith disgyblion.

Mae adroddiadau ar ddisgyblion i rieni o ansawdd da a rhoddant wybodaeth ddefnyddiol i rieni am ba mor dda mae eu plant yn ei wneud. Gosodant dargedau priodol i ddisgyblion i’w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod eu bod yn gallu gofyn i staff am gymorth ac arweiniad a theimlant eu bod yn cael cymorth da gan yr holl staff. Mae gwasanaethau wedi'u cynllunio'n dda ac ymwelwyr â'r ysgol, fel y ficer lleol a'r heddlu, yn cynnig amrywiaeth addas o brofiadau sy'n cyfoethogi datblygiad ysbrydol a moesol bron pob un o'r disgyblion.

Mae trefniadau priodol gan yr ysgol i hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae amrywiaeth addas o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymarfer corff yn ystod gwersi a thrwy weithgareddau ar ôl ysgol, fel clybiau pêl-droed ac athletau. Mae gan yr ysgol ddewis effeithiol o weithdrefnau i sicrhau bod dealltwriaeth dda gan ddisgyblion o sut i gadw'u hunain yn ddiogel ar-lein.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae staff yn nodi'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gyflym. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn defnyddio ystod werthfawr o raglenni ymyrraeth sy'n adeiladu'n systematig ar anghenion y disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn dda trwy ddarpariaeth grŵp anogaeth effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o amrywiaeth o wasanaethau cymorth ac arbenigol, gan gynnwys y gwasanaeth iaith a lleferydd a therapi galwedigaethol, i gefnogi anghenion disgyblion yn briodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad cyffredinol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn effeithiol drwy amrywiaeth o fentrau, fel tystysgrifau wythnosol. O ganlyniad, mae lefelau presenoldeb wedi gwella ac mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi gostwng. Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol, gyda'r staff yn rhoi'r un pwys ar yr holl ddisgyblion yn gyfartal. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o oddefgarwch, parch a dealltwriaeth yn llwyddiannus ac yn sensitif. Mae trefniadau priodol ar gyfer cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth disgyblion ac eraill mewn cymdeithas. Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliannau eraill, fel areithiau a chyflwyniadau gan ddisgyblion eraill am eu mamwlad. Mae'r ysgol yn defnyddio'i hadeiladau'n briodol i gynnig amgylchedd dysgu croesawgar. Mae ystafelloedd dosbarth yn lân ac yn drefnus, ac mae ystod dda o adnoddau dysgu yn cefnogi dysgu'n dda.

Mae safle'r ysgol a'i hadeiladau'n peri amrywiaeth o heriau, yn strwythurol ac yn ffisegol. Nid oes llawer o le tu allan, ond mae amserlennu gofalus gan yr ysgol yn sicrhau bod ardaloedd a chyfleoedd addas ar gyfer chwarae creadigol a dysgu yn yr awyr agored. Mae staff yn gwneud defnydd buddiol o'r eglwys a'r neuadd gymuned leol i gynnal cyngherddau, gweithgareddau ysgol gyfan ac amrywiaeth o ddigwyddiadau chwaraeon. Mae arddangosfeydd deniadol yn dathlu gwaith disgyblion yn llwyddiannus.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth dros dro yn cynnig arweinyddiaeth gref. Mae hi'n cyfleu'r weledigaeth a'r gwerthoedd ar gyfer yr ysgol yn glir i'r holl staff ac mae'n symud yr ysgol yn ei blaen yn dda yn dilyn cyfnod o newid. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer y staff ac maent yn ymateb yn fodlon i'w harweinyddiaeth. O ganlyniad i arweinyddiaeth â ffocws da, mae dadansoddiad mwy buddiol o ddata ar berfformiad, mae cynllunio tymor byr y cwricwlwm yn well ac mae mwy o ffocws ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae'r uwch dîm arwain sefydledig yn gefnogol o'r pennaeth dros dro. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella ac maent yn gweithio'n dda fel tîm, gyda ffocws addas ar wella deilliannau i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw eu cyfraniad at osod cyfeiriad strategol yr ysgol yn gydlynus nac wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae athrawon yn cydweithio'n dda ac yn cyfarfod yn ffurfiol, yn rheolaidd. Gwnânt gyfraniadau dilys, buddiol at drafodaethau ar faterion ysgol gyfan a chynllunio at y dyfodol. Mae amserlen adolygu blynyddol yr ysgol yn cysylltu'n effeithiol â'r agendâu ar gyfer cyfarfodydd arweinwyr a staff.

Mae systemau cyson ar gyfer rheoli perfformiad athrawon. Mae gan yr holl athrawon dargedau perthnasol, sydd wedi'u cysylltu â blaenoriaethau'r ysgol a chynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae athrawon yn cynllunio'n briodol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn ymgorffori ei ddulliau mewn gwersi a themâu.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol ac yn adnabod y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu gan yr ysgol yn dda. Mae cyflwyniadau ar ddata perfformiad yr ysgol yn sicrhau bod llywodraethwyr yn dechrau ennill dealltwriaeth well o sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â pherfformiad ysgolion eraill. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae eu rôl fel ffrindiau beirniadol ac wrth herio arweinyddiaeth yr ysgol yn gyfyngedig.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol system effeithiol ar gyfer hunanarfarnu sy'n rhoi darlun gonest a chywir o'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o wybodaeth berthnasol i asesu pa mor dda mae'r ysgol yn perfformio. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata, arsylwadau gwersi, barn asiantaethau allanol, adolygu gwaith disgyblion a chanlyniadau trafodaethau â disgyblion. Mae llawer o athrawon yn cyfrannu at hunanarfarnu trwy adroddiadau monitro a chynlluniau gweithredu pynciau. Fodd bynnag, nid oes rôl gan y staff cymorth yn y broses hunanarfarnu ar hyn o bryd ac nid yw'r ysgol yn ymgorffori barn rhieni a rhanddeiliaid eraill yn llwyr.

Mae'r ysgol yn defnyddio deilliannau hunanarfarnu yn effeithiol i helpu i wella deilliannau i ddysgwyr. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys nifer hwylus o dargedau sy'n canolbwyntio'n briodol ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Mae'r blaenoriaethau'n nodi amserlenni, costau a chyfrifoldebau priodol yn glir ac yn dangos sut mae arweinwyr yn bwriadu mesur cynnydd. Mae hanes llwyddiannus diweddar gan yr ysgol o roi strategaethau gwella ar waith. Er enghraifft, arweiniodd cynllunio'r llynedd ar gyfer gwella at welliannau amlwg mewn deilliannau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw'r systemau a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi cael digon o amser i gael effaith lawn ar y safonau y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu cyrraedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i wella safonau disgyblion a gwella'u lles. Mae'n meithrin partneriaeth addas gyda rhieni ac maent yn teimlo'n hapus i droi at yr ysgol. Mae'r ysgol yn sefydlu cysylltiadau priodol â rhieni cyn bod eu plentyn yn dechrau'r ysgol trwy sesiynau galw heibio, ymweliadau â'r cartref a gweithdai. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth dda gan rieni a bod disgyblion yn cael dechrau cadarnhaol i fywyd yr ysgol. Mae rhieni'n cael gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau yn yr ysgol trwy lythyron neu drwy wefan yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cynhyrchiol ag ystod briodol o sefydliadau lleol yn y dref, gan gynnwys busnesau lleol, elusennau ac eglwysi. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac yn codi eu hymwybyddiaeth o bobl mewn angen. Mae cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau lleol, fel dathliadau goleuadau'r Nadolig, yn codi proffil yr ysgol yn yr ardal ac yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau buddiol â gwasanaethau'r awdurdod lleol ac ysgolion eraill yn yr ardal. Mae athrawon yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill i gymedroli asesiadau o waith disgyblion a rhannu hyfforddiant a chynllunio ar y cyd. Mae hyn wedi galluogi ysgolion cynradd lleol a'r ysgol uwchradd i ddatblygu ymwybyddiaeth ar y cyd o ddulliau addysgu. Mae cysylltiadau addas â'r ysgol uwchradd leol a'r ysgol fabanod sy'n cyflenwi'r ysgol, gan gynnwys rhannu gweithgareddau chwaraeon a cherddoriaeth, yn galluogi disgyblion i drosglwyddo'n hwylus i gam nesaf eu dysgu.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol ac effeithlon o'i hadnoddau. Mae digon o staff cymwys i addysgu pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag athrawon a gwnânt gyfraniad gwerthfawr at brofiadau dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ystod werthfawr o gyfleoedd perthnasol i athrawon a staff cymorth dysgu gymryd rhan mewn hyfforddiant sydd â chysylltiad agos â'u rôl a blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion. Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae arweinwyr yn neilltuo cyllid yn briodol i gefnogi'r blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gyllid grant ychwanegol i gyflogi cynorthwywyr addysgu sy'n cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyrraedd eu potensial. Mae hyn wedi arwain at welliannau amlwg mewn safonau llythrennedd a rhifedd ar gyfer y disgyblion hyn, fel eu bod yn cyflawni cystal â disgyblion eraill ar y cyfan.

Yng ngoleuni'r safonau sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692165 - Ysgol Gynradd Maesllyn**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 268 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 39.0 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 23 | 27 | 27 | 25 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 60.9 | 66.7 | 77.8 | 48.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 27 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 60.9 | 70.4 | 77.8 | 48.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 4.3 | 14.8 | 11.1 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 27 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 73.9 | 74.1 | 85.2 | 48.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 8.7 | 3.7 | 18.5 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 27 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 82.6 | 92.6 | 100.0 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 55.6 | 51.9 | 16.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692165 - Ysgol Gynradd Maesllyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 268 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 39.0 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 41 | 50 | 43 | 40 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.6 | 72.0 | 86.0 | 77.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 41 | 50 | 43 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.5 | 74.0 | 86.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 31.7 | 26.0 | 37.2 | 17.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 41 | 50 | 43 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 82.9 | 76.0 | 88.4 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 17.1 | 18.0 | 37.2 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 41 | 50 | 43 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.8 | 82.0 | 93.0 | 82.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 24.4 | 18.0 | 37.2 | 12.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

mae'n dynodi'r trothwy – dyma gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 109 | 103<br>94%<br>98% | 6<br>6%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 107 | 94<br>88%<br>92% | 13<br>12%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 107 | 103<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 109 | 106<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 108 | 101<br>94%<br>96% | 7<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 106 | 97<br>92%<br>96% | 9<br>8%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 108 | 107<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 108 | 105<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 108 | 100<br>93%<br>91% | 8<br>7%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 109 | 96<br>88%<br>95% | 13<br>12%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 107 | 91<br>85%<br>77% | 16<br>15%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 107 | 83<br>78%<br>84% | 24<br>22%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r trothwy – dyma gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 27 | 9 | 14 | 4 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 33% | 52% | 15% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 27 | 8 | 15 | 4 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 30% | 56% | 15% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 28 | 9 | 18 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 32% | 64% | 4% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 27 | 9 | 17 | 0 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 33% | 63% | 0% | 4% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 27 | 3 | 16 | 5 | 3 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 11% | 59% | 19% | 11% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 26 | 8 | 15 | 3 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 31% | 58% | 12% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 28 | 7 | 19 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 25% | 68% | 7% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 27 | 4 | 19 | 3 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 15% | 70% | 11% | 4% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 27 | 5 | 18 | 1 | 3 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 19% | 67% | 4% | 11% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 6 | 16 | 4 | 1 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 22% | 59% | 15% | 4% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 27 | 9 | 16 | 1 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 33% | 59% | 4% | 4% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 23 | 6 | 12 | 4 | 1 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 26% | 52% | 17% | 4% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 28 | 8 | 15 | 3 | 2 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 29% | 54% | 11% | 7% | | |
| | | 50% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 28 | 8 | 14 | 3 | 3 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 29% | 50% | 11% | 11% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 23 | 8 | 12 | 1 | 2 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 35% | 52% | 4% | 9% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 27 | 7 | 17 | 2 | 1 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 26% | 63% | 7% | 4% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 23 | 5 | 14 | 3 | 1 | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 22% | 61% | 13% | 4% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 28 | 3 | 19 | 5 | 1 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 11% | 68% | 18% | 4% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 27 | 5 | 17 | 4 | 1 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 19% | 63% | 15% | 4% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Helen Kay Lester | Arolygydd Cofnodol |
| Lowri Haf Evans | Arolygydd Tîm |
| Terry James Davies | Arolygydd Lleyg |
| Jeremy Piper | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Morgans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.